

Creu gwesty trychfilod

Adeiladwch eich gwesty trychfilod eich hun!
Codwch dŵr moethus fel cartref i fuchod coch
cota, llyffantod, brogaod a draenogod gan
ddefnyddio gwastraff yr ardd. Ychwanegwch
faint a fynnwch o lorïau.

- 1** Dewiswch lecyn gwastad yn yr haul neu mewn ychydig o gysgod ar gyfer eich gwesty.



- 2** Gosodwch y brics ar ffurf H. Llanwch y gofod rhyngddyn nhw gyda chymysgedd o'r canlynol - gwellt, gwair, hen ddail, mwsog, tywod.
- 3** Taenwch sribedi o bren neu balet dros y brics a llanwch y gofod gyda pheth o'r llenwad.
- 4** Ychwanegwch haen arall o sribedi pren neu balet a'i lanw eto gyda'r llenwad.

Byddwch angen

- Brics
- Stribedi o bren
- Teils to neu ffelt to

Ar gyfer y llenwad (unrhywbeth o'r canlynol)

- Gwellt, gwair, hen ddail, mwsog, tywod
- Tiwbiau cardbord a cherdyn rhychiog
- Pibelli plastig a cheramig o faint a lled amrywiol
- Cerrig
- Brigau bambŵ gwag
- Bonion planhigion marw gwag
- Moch coed
- Boncyffion gyda thyllau o faint amrywiol

- 5** Daliwch ati nes bydd eich gwesty mor uchel ag y dymunwch, yna gorchuddiwch y cyfan gyda theils neu ffelt fel bod gan eich gwesty do rhag y glaw. Rhowch frics ar ben y cyfan er mwyn cadw'r to yn ei le.



Mwy o'r gwyllt

Gall llorïau'ch gwesty fod yn gartref i greaduriaid amrywiol. Gall llyffantod a brogaod gladdu eu hunain mewn tywod yn y llawr isaf. Mae buchod coch cota yn gaeafgysgu mewn tiwbiau gwag ac yn nythu mewn gwellt. Bydd creaduriaid bychan eraill yn byw ymhlith y dail a'r mwsog ac mewn tyllau yn y boncyffion.

Cadw'n ddiogel.

Peidiwch ag adeiladu eich gwesty yn rhy uchel a thenau – rhag ofn iddo syrthio.